



## Diweddariad pwysig ynghylch trefniadau asesu cymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

Ar ôl trafod â Cymwysterau Cymru, cadarnhawyd ganddynt y bydd asesiadau allanol **Haf 2021** y cymwysterau canlynol yn digwydd dros 'gyfnod penodol o amser' i gyfateb i'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer y cymwysterau cyffredinol:

5962U50-1/ 5962U60-1	<b>Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori</b> Grŵp Ch: Deall Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant
4963U80-1/ 4963U90-1	<b>Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori</b> Uned 330: Egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain Ganrif yng Nghymru
5972UA0-1/ 5972UB0-1	<b>Lefel 2 lechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau</b> Uned 1: Hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd
4973UA0-1/ 4973UB0-1	<b>Lefel 3 lechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau</b> Uned 2: Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolion drwy gydol oes a sut mae hyn yn effeithio ar ganlyniadau ac anghenion gofal a chefnogaeth

Ein bwriad yw cynnal yr arholiadau hyn rhwng 17 Mai a 14 Mehefin. Byddwn yn gofyn i'r canolfannau gyflwyno sylwadau ar y cynnig hwn drwy gynnal arolwg byr ar-lein.

Cyhoeddodd Kirsty Williams ddoe (4 Ionawr 2021) na fydd ysgolion a cholegau'n ailagor tan 18 Ionawr 2021, ac eithrio i blant sy'n agored i niwed, plant gweithwyr allweddol a dysgwyr y mae angen iddynt gwblhau arholiadau neu asesiadau hanfodol. **Gallwn ni gadarnhau felly bod Cymwysterau Cymru wedi cytuno y bydd arholiadau Ionawr 2021 yr unedau uchod yn digwydd yn ôl y bwriad** i ddysgwyr oedd ddim yn hapus â'r radd asesu canolfannau a ddyfarnwyd yn Haf 2020 ac/neu i'r sawl sy'n barod i'w hasesu. Rhyddhawyd hysbysiad ymlaen llaw am rai o'r testunau y bydd yr arholiadau'n ymdrin â nhw er mwyn cefnogi dysgwyr wrth iddynt baratoi'n derfynol ar gyfer arholiadau Ionawr. Mae'r wybodaeth hon i'w gweld ar ein gwefan ddiogel yn yr adran Adnoddau/Rhyddhau Ymlaen Llaw.

Bydd asesiadau di-arholiad yn dal i fod yn rhan o'r drefn asesu yn Haf 2021. Cyhoeddwyd addasiadau i'r asesiadau di-arholiad ar wefan Dysgu lechyd a Gofal Cymru. Dylai canolfannau sicrhau eu bod yn cyfeirio at y wybodaeth ddiweddaraf am yr addasiadau hyn.

Rydym yn ymwybodol y gall y penderfyniadau diweddar hyn effeithio ar eich bwriadau cofrestru. Gallwn gadarnhau na fydd rhaid talu ffioedd hwyr a ffioedd diwygio ar gyfer cyfres Ionawr. Gall canolfannau ddiwygio eu cofrestriadau hyd at a gan gynnwys 20 Ionawr 2021 heb orfod talu ffioedd ychwanegol. Codir y ffi gofrestru safonol ar gyfer unrhyw ymgeisydd â chofrestriad ar 21 Ionawr 2021.